# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 14EG CHWEFROR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 7/02/22)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Beth Lawton
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn fel rhai cywir:-

- 26 Hydref, 2021 (Cyfarfod Arbennig)
- 8 Tachwedd, 2021
- 8 Rhagfyr, 2021 (Cyfarfod Arbennig)

**5. GRWP TASG A GORFFEN - Y FFRAMWAITH SAFONAU FOESEGOL** 16 - 18

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**6. ADRODDIAD AR GANLYNIAD YMCHWILIAD I GWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD MICHAEL STEVENS O GYNGOR TREF TYWYN** 19 - 25

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 26 - 27

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2019-20 A 2020-21** 28 - 60

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

# PWYLLGOR SAFONAU ARBENNIG, 26/10/21

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM INDEMNIAD GAN GYNGHORYDD O DAN BOLISI'R CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn gwahodd y pwyllgor i benderfynu ar gais am indemniad gan gynghorydd dan delerau indemniad y Cyngor i Aelodau a Swyddogion.

**PENDERFYNWYD wedi edrych ar y cais yn ofalus iawn, a gan ystyried Polisi Indemniad Cyngor Gwynedd, a gynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor, bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr aelod i'w hysbysu nad yw'r Pwyllgor Safonau mewn sefyllfa i gynnig indemniad iddo mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfreithiol yng ngwrandawiad y Pwyllgor Safonau. Mae'r achos mae'r cynghorydd yn amddiffyn yn ymwneud yn llwyr â'i rôl fel Cynghorydd Cyngor Tref. Byddai unrhyw benderfyniad yn effeithio ar y rôl honno'n unig, ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar rôl y cynghorydd fel aelod o Gyngor Gwynedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.55 y.b.

______________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 8 TACHWEDD 2021

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mehefin a 7 Gorffennaf, 2021 fel rhai cywir.

**5. ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru.

Tynnwyd sylw gan y Swyddog Monitro at ambell bwynt yn yr adroddiad, fel a ganlyn:-

- Er yr ymgynghorwyd ag Unllais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'r adolygiad, ei bod yn syndod na fu mwy o ymgynghori gyda grŵp o aelodau etholedig, gan y byddai'r persbectif yma wedi bod yn gyfraniad pwysig at greu'r adroddiad.
- Na ragwelid y byddai'r gwaith deddfu yn dechrau ar y newidiadau statudol, ayb, tan ar ôl yr Etholiadau ym Mai 2022, gan fod cymaint yn digwydd ym maes deddfwriaeth llywodraeth leol ar hyn o bryd.
- Er y croesawid yr argymhelliad bod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn dod yn orfodol i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned, bod cwestiwn yn codi ynglŷn ag ymarferoldeb hynny, o ystyried bod tua 750 o aelodau cynghorau cymuned a thref ar draws Gwynedd, a tua 7,500 ar draws Cymru gyfan.
- Er bod yr argymhelliad y dylid datrys mwy o gwynion yn lleol yn edrych yn synhwyrol ar un lefel, bod trefn o'r fath yn anorfod yn galw am adnoddau ac amser i ymchwilio i'r materion hynny. Roedd hynny'n wir am faterion mewnol Gwynedd a materion

cynghorau cymuned, gan gofio hefyd nad oedd gan bob cyngor cymuned yr adnodd proffesiynol i ymgymryd â'r gwaith.

- Gan fod yr adroddiad yn amlygu'r amrywiol ffyrdd y mae pwyllgorau safonau ar draws Cymru yn gweithredu, o ran lle mae'r pwyllgor yn eistedd o fewn yr awdurdod, ei rôl a pha mor rhagweithiol ydyw, ayb, efallai bod yna faterion yma y dylai'r pwyllgor hwn adlewyrchu arnynt, waeth beth fyddai'n dod allan o'r ddeddfwriaeth.
- Bod cyfrifoldeb statudol arweinyddion grwpiau gwleidyddol am ymddygiad eu haelodau (dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cydblethu ag elfennau o'r hyn sydd yn yr adroddiad hwn, ac yn creu platfform i gael proffil uwch i'r Pwyllgor Safonau, gan roi iddo rôl fwy amlwg dydd i ddydd ym materion ymddygiad aelodau.

Trafodwyd y prif faterion canlynol yn codi o'r adolygiad:-

<u>Hyfforddiant</u>

- Nodwyd y gellid trefnu hyfforddiant ar-lein ar gyfer aelodau cynghorau cymuned a thref, neu hyfforddiant ar bapur i unrhyw un sydd heb gyfrifiadur.  Yn ogystal â gwneud i ffwrdd â'r angen i drefnu hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda chynifer o aelodau, byddai hynny hefyd yn fodd o ganiatáu i bawb gyflawni'r hyfforddiant ar adeg sy'n hwylus iddynt o fewn ffenest' amser penodol.  Nodwyd, fodd bynnag, bod angen yr adnoddau i sicrhau ei fod yr hyfforddiant cywir a'i fod yn cael ei farcio'n gywir.
- Holwyd a oedd modd i gynghorau gydweithio i lunio hyfforddiant fel bod pawb yn derbyn yr un hyfforddiant, a bod yr adnoddau'n cael eu pwlio i roi hyn at ei gilydd. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod hynny'n hanfodol, ac ar gyfer Etholiadau Mai 2022, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd â grŵp o swyddogion monitro eisoes yn gweithio ar becyn hyfforddiant cyson ar draws Cymru.

<u>Rôl clercod cynghorau cymuned/tref</u>

- Nodwyd bod swydd clerc cyngor cymuned/tref yn swydd gyfrifol, a dylai fod yn swydd llawn-amser, gyda chlercod yn gwasanaethu mwy nag un cyngor, o bosib', ac yn meddu ar gymhwyster proffesiynol.  Y cwestiwn mawr, fodd bynnag, oedd sut a beth oedd yr adnoddau i wneud hynny?
- Holwyd a oedd lle i gryfhau rôl y clerc, gan eu bod yn y fan a'r lle pan mae rhywbeth yn digwydd.  Hefyd, os oes gan y cyngor barch at y clerc, a bod y cryfder a'r pwerau gan y clerc, o bosib' bod hyn yn ffordd o ddatrys y peth yn y lle cyntaf.  Nodwyd bod rôl amlwg i gadeirydd y cyngor yn hyn o beth hefyd.
- Nodwyd bod maint ac adnoddau cynghorau cymuned yn amrywio yn sylweddol, a bod gan gynghorau gwledig adnodd llawer llai i ymdrin â materion o anghydfod, gyda'r clerc yn gweithio'n arwrol i gynnal y rôl eang yma.  Roedd lle i ddatblygu ar y gefnogaeth yma, ond nid oedd yr adroddiad yn awgrymu bod strwythur ar gyfer hynny.
- Nodwyd bod Partneriaeth Ogwen, er enghraifft, yn cynnig cefnogaeth clercio i gynghorau cymuned, ac awgrymwyd y gallai grwpiau cymunedol o'r fath hanner proffesiynoli clercod drwy gyfrwng cefnogaeth o'r fath.
- Nodwyd ei bod yn allweddol bwysig cael swyddog monitro cryf a chadeirydd cryf i gadw trefn ar unrhyw gyngor sir, ac yn yr un modd, roedd yn bwysig cael clerc cryf a chadeirydd cryf i gadw trefn ar gynghorau cymuned, ac adnabod unrhyw risgiau cyn iddynt godi.

<u>Atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau</u>

- Croesawyd y ffaith bod yr Ombwdsmon yn derbyn bod angen mwy o atgyfeiriadau at bwyllgorau safonau pan fo'n gwrthod ymchwilio i gwynion, gan fod yna gwynion o hyd bod pethau ddim yn cael eu rhannu.  Roedd cyfle yma i ddatrys cwynion yn fwy lleol, ac roedd yn bwysig symud ymlaen ar hynny os yn bosib'.
- I'r gwrthwyneb, awgrymwyd bod y broses ddatrys leol yn lleihau llwyth gwaith yr Ombwdsmon.  Holwyd pam nad oedd gan yr Ombwdsmon gynrychiolaeth ranbarthol / isranbarthol / leol ar draws Cymru i ffiltro cwynion yn y lle cyntaf, gan y byddai hynny'n ysgafnhau gwaith y cyngor sir ac yn parhau i fod yn hyd braich oddi wrth y cyngor.
- Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi bod pryder wedi'i fynegi bod y nifer isel o atgyfeiriadau at bwyllgorau safonau fel cyfran o'r cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn cael effaith andwyol ar allu pwyllgorau safonau i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig, a bod achwynwyr o'r farn nad oedd eu pryderon yn cael eu trin o ddifrif.  Roedd y pryder yma'n cael ei fynegi yng nghyfarfod y Cyngor llawn yn flynyddol, a byddai'n fuddiol hysbysu'r Cyngor bod y sylwadau rydym ni wedi bod yn wneud ar hyd y blynyddoedd wedi'u nodi yn yr adroddiad yma fel cŵyn gyffredinol, ac nid yn unig o Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd

- Croesawyd y cyfeiriad at sefydlu Fforwm Pwyllgorau Safonau dros Gymru gyfan.
- Nodwyd bod y cydweithio rhwng y Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol am fod yn bwysig i'r dyfodol.
- Nodwyd y sylwyd o'r wefan mai ychydig iawn o gynghorwyr Gwynedd oedd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, yn enwedig felly llynedd, a holwyd a ddylai'r Pwyllgor Safonau fod yn hybu hynny?  Mewn ymateb, eglurwyd bod yr aelodau yn cael eu hatgoffa i lunio adroddiadau blynyddol, ond y credid bod y gofyn wedi'i atal llynedd fel rhan o'r Rheoliadau Brys Covid.  Nodwyd hefyd bod rhai cynghorwyr yn rhoi diweddariadau wythnosol i'w hetholwyr drwy gyfrwng Facebook.
- Nodwyd ei bod yn bwysig bod unrhyw un sy'n rhoi ei enw ymlaen i gael ei ethol yn gynghorydd yn glir beth yw'r disgwyliadau ohonynt, a'u bod yn deall beth yn union mae'r Cod Ymddygiad yn ei olygu.  Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod pob aelod newydd ar y Cyngor yn derbyn cyflwyniad ar y Cod cyn arwyddo i dderbyn y swydd, ac y byddai'r Cod hefyd yn rhan o'r sesiynau briffio oedd yn cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Democratiaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gyfer Etholiad Mai 2022.  Nododd ymhellach y byddai'n gwirio'r wybodaeth sy'n mynd allan i ddarpar ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod y wybodaeth rhag blaen yno, gan fod cynghorwyr yn arwyddo i fyny i fod yn arweinyddion cymdeithas, ynghyd â'r holl ddisgwyliadau o ran ymddygiad sydd ynghlwm â hynny.  Awgrymodd y Cadeirydd fod angen cryfhau'r berthynas rhwng y Pwyllgor Safonau a'r Gwasanaeth Democratiaeth, gan eu bod, o bosib', yn gweithredu mewn bocsys ar wahân ar hyn o bryd.
- Croesawyd y ffaith na fyddai'n ofynnol i gynghorwyr roi eu cyfeiriadau cartref ar y datganiad derbyn swydd, ond nodwyd bod bwlio, ac ati, ar y cyfryngau cymdeithasol yn broblem barhaus.
- Mewn ymateb i sylw bod y trothwy ar gyfer derbyn rhoddion a lletygarwch yn amrywio ar draws Cymru, nodwyd bod yr angen i gysoni trefniadau mewn sawl agwedd yn o'r themâu oedd yn dod drosodd, ond diau y byddai'r dechnoleg newydd yn hwyluso cynnal Fforwm Cymru gyfan, fyddai'n gallu trafod y math yma o beth.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod yna adegau pan mae'r swyddogion wedi awgrymu wrth y sawl a gyflwynodd gŵyn nad yw'n fater torri'r cod neu brotocol.
- Awgrymwyd bod yr adroddiad yn amlygu gwrthdaro rhwng dwy egwyddor, sef y dymuniad i leihau nifer y cwynion a'r dymuniad i leihau'r trothwy.

- Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi y dylai cadeirydd pwyllgor safonau chwarae rôl arwain, ynghyd â'r prif weithredwr, y swyddog monitro ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol, wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ym mhob rhan o'r cyngor, a mynegwyd y farn bod hyn yn rhywbeth y dylid gwneud mwy ohono yng Ngwynedd.
- Croesawyd y ffaith bod yna ganllawiau clir a hygyrch ar wefan Cyngor Gwynedd ynglŷn â sut i fynd ati i gyflwyno cŵyn, gan gynnwys cŵyn iaith.
- Sylwyd bod yr adroddiad yn nodi y dylai prif ffocws pwyllgorau safonau fod ar fesurau rhagweithiol i gefnogi aelodau o'u cyngor i gynnal safonau ymddygiad priodol, a thrwy hynny osgoi torri'r Cod, a bod pwyllgorau safonau yn gwneud hyn drwy amrywiaeth o ffyrdd, megis gweithio gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol, mynychu a monitro cyfarfodydd Cyngor a chyflwyno adroddiadau blynyddol i gynghorau ar eu gweithgareddau a'r safonau ymddygiad o fewn yr awdurdod. Yn wyneb hynny, awgrymwyd y byddai'n fuddiol sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod ein hymateb i'r adroddiad, gan ddod â'r cynigion a amlygwyd yn ystod y drafodaeth yma at ei gilydd, ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y pwyllgor. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y credai ei bod yn amserol, cyn Etholiadau'r Cyngor ym Mai 2022, i edrych ar ddyfodol Pwyllgor Safonau Gwynedd yng ngoleuni'r materion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth newydd a chyfrifoldeb statudol arweinyddion grwpiau gwleidyddol am ymddygiad eu haelodau, gan ystyried ffurf y pwyllgor i'r dyfodol, sut y gellir ei wneud yn fwy gweledol ac yn fwy gweithredol o fewn y Cyngor, a sut y gellir cryfhau a gwneud y cydgysylltiad rhwng y pwyllgor a gwahanol wasanaethau'r Cyngor, megis y Gwasanaethau Democratiaeth, yn fwy amlwg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth, a sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, ynghyd ag un aelod etholedig (Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones), un aelod annibynnol (Mr Dave Wareing) a'r Aelod Pwyllgor Cymuned (Mr Richard Parry Hughes) gyda chefnogaeth yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), i drafod canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru, gan roi sylw penodol i'r materion isod, a chyflwyno argymhellion i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Chwefror, 2022:-**

- **Ffurf y Pwyllgor Safonau i'r dyfodol;**
- **Sut y gellir gwneud y pwyllgor yn fwy gweledol ac yn fwy gweithredol o fewn y Cyngor; a**
- **Sut y gellir cryfhau a gwneud y cyd-gysylltiad rhwng y pwyllgor a gwahanol wasanaethau'r Cyngor, megis y Gwasanaethau Democratiaeth, yn fwy amlwg.**

## 6 HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2020-21

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2020-21 er gwybodaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Sylwyd o'r tabl oedd yn dangos cyfran y cwynion a dderbyniwyd o dan bob egwyddor o'i gymharu â 2019/20 (tudalen 101 o'r rhaglen) bod nifer y cwynion hyrwyddo cydraddoldeb a pharch wedi cynyddu'n sylweddol, a phwysleisiwyd yr

angen i ganolbwyntio ar y maes yma wrth gynnal yr hyfforddiant. Sylwyd hefyd bod nifer y cwynion datgelu a chofrestru budd wedi gostwng, oedd yn awgrymu bod y neges ynglŷn â hynny yn dechrau treiddio drwodd.

- Nodwyd bod paragraff 3.2.1 o'r Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yn nodi bod cydraddoldeb a pharch at eraill wedi eu hychwanegu at Egwyddorion Nolan gan Lywodraeth Cymru, ond nad oedd yr egwyddorion hyn wedi'u cynnwys yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Gan hynny, nid oedd peidio cydymffurfio gyda chydraddoldeb a pharch yn dynodi torri'r Cod ynddo'i hun, er ei bod yn debygol y byddai methu â glynu wrth yr egwyddor ynghylch cydraddoldeb a pharch yn gyfystyr â thorri'r gofynion a nodir ym mharagraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod.
- Sylwyd mai ond 10 allan o 500 o gwynion oedd wedi'u cyfeirio at bwyllgorau safonau dros y flwyddyn gyfan. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn bwynt i'w nodi yn y Cyngor llawn, er derbyn y byddai'r ymdeimlad o rwystredigaeth yn parhau. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro, er cydnabod y feirniadaeth o'r drefn, ayb, y gallai'r nifer isel o gyfeiriadau fod yn beth cadarnhaol hefyd, gan ei fod yn awgrymu nad oedd mwyafrif y cwynion yn rhai digon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad.
- Awgrymwyd, petai pobl yn fwy parod i ymddiheuro, y byddai llawer o'r materion hyn wedi'u hanghofio cyn pen fawr o dro.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 8/12/21

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Katrin Shaw (Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau) a Leigh McAndrew (Swyddog Ymchwilio); Swyddogion Cyngor Gwynedd - Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. CWYN O DORRI'R COD YMDDYGIAD A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a chyflwynodd swyddogion yr Ombwdsmon eu hunain i'r aelodau.

Yna esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

**Cefndir**

1. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i gŵyn a wnaed gan gadeirydd Pwyllgor Personél Cyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") y Cynghorydd John Pughe, bod y Cynghorydd George Michael Stevens ("yr Aelod") wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor.

2. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amharchus tuag at Glerc y Cyngor ar y pryd ("y Clerc") a'i fod wedi ei thanseilio dro ar ôl tro. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd gan yr Aelod at y Clerc a gohebiaeth a anfonwyd gan yr Aelod am y Clerc.

3. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod gohebiaeth yr Aelod yn cynnwys sylwadau personol difrïol a oedd yn amharchus ac mai bwriad y sylwadau ynglŷn â phrofiad y Clerc oedd tanseilio'r Clerc. Yn ychwanegol, defnyddiodd yr Aelod iaith â thuedd tuag at ryw benodol wrth wneud sylwadau am y Clerc.

4. Daeth yr Ombwdsmon i'r penderfyniad y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 4(a), 4(b) a 4(c), sy'n darparu:

*"4. Mae'n rhaid i chi:*

*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;*
*(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;*
*(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn*

Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid ystyried gweithredodd yr Aelod yn rhesymol fel ymddygiad a allai fod wedi torri paragraff 6 (1) (a) y Cod Ymddygiad:

*"6 (1) Mae'n rhaid i chi:*
*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;"*

5. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

**Y Gwrandawiad**

6. Cyflwynodd yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) (Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd oedd yn cynghori'r Pwyllgor) ei adroddiad ar gychwyn y gwrandawiad. Eglurodd fod yr Aelod wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Tref Tywyn ar 4 Rhagfyr 2021 a bod yr Aelod wedi cadarnhau nad oedd yn bwriadu mynychu'r gwrandawiad. Eglurodd nad oedd ymddiswyddiad yr Aelod yn newid yr angen i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar adroddiad yr Ombwdsmon. Serch hynny o safbwynt y cosbau oedd ar gael i'r Pwyllgor pe bai'n dod i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri'r Cod, ni fyddai gwahardd yr aelod bellach yn opsiwn.

7. Penderfynodd y Pwyllgor fwrw ymlaen gyda'r gwrandawiad ac ystyriodd adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon a'r dogfennau pellach oedd wedi eu cyflwyno ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd gyflwyniadau llafar gan Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gan Leigh McAndrew, Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon.

**Y Penderfyniad**

8. Ystyriodd y Pwyllgor yn gyntaf unrhyw ganfyddiad o ffaith yr oedd angen iddo wneud. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth gan yr Aelod dros gyfnod o tua 12 mis. Roedd yr ohebiaeth yma wedi ei gynnwys yn y dystiolaeth ysgrifenedig gerbron ac nid oedd amheuaeth felly ynglŷn â'r hyn yr oedd yr Aelod wedi ei ddweud. Yr un mater ffeithiol perthnasol a nodwyd yn yr adroddiad fel un oedd yn destun amheuaeth oedd bod yr aelod yn gwadu iddo fwriadu anfon ei bost dyddiedig 22 Ionawr 2020 at holl aelodau Cyngor Gwynedd.

9. Ystyriodd y Pwyllgor y ffaith fod yr aelod wedi pwysleisio ei fod bob tro yn ofalus iawn yn y modd yr oedd yn gohebu, a'r ffaith y byddai'n amlwg wrth ysgrifennu'r e-bost a chyn ei anfon y byddai'r e-bost yn cael ei anfon at nifer fawr o bobl. Roedd yr e-bost dan sylw yn ymateb i wahoddiad cyffredinol i holl aelodau Cyngor Gwynedd gan y Pennaeth Cyllid. Roedd y ffaith fod yr Aelod wedi dewis gwneud sylwadau beirniadol am y Swyddog Monitro yn ei ymateb yn hytrach na dim ond ymddiheuro na fyddai'n bresennol, yn awgrymu'n gryf ei fod wedi bwriadu i'r aelodau weld y sylwadau yma. Roedd y ffaith nad oedd yr e-bost yn cyfarch un derbynnydd yn benodol (yn wahanol i nifer helaeth o'i e-byst eraill) yn atgyfnerthu'r canfyddiad hyn.

10. Penderfynodd y Pwyllgor felly, ei fod yn fodlon, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod yr Aelod wedi bwriadu anfon yr e-bost at yr holl aelodau.

11. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried ymddygiad yr Aelod, ac ar ôl ystyriaeth ofalus o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

**12. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

12.1 Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi defnyddio iaith yn seiliedig ar rywedd yn ei ohebiaeth gan ddefnyddio geiriau megis "misandrist" ac "overbearing school mistress" i ddisgrifio'r Clerc gan ddweud amdani ei bod yn "slowly emasculating the Council". Roedd wedi parhau i ddefnyddio iaith o'r fath wrth gael ei gyfweld gan yr Ombwdsmon gan gyfeirio ati sawl gwaith fel "this/that woman" a'i fod yn credu ei bod yn wir (fel y dywedodd rhywun wrtho) fod y Clerc yn "man-hating vegan" oherwydd ei chysylltiad gyda Phlaid Cydraddoldeb Menywod .

12.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn fod yma batrwm o ddefnyddio iaith wahaniaethol tuag at, ac am y Clerc a bod yr ymddygiad yma gyda'i gilydd yn dangos bod yr Aelod wedi methu ag ymddwyn mewn modd oedd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth (ymysg materion eraill) fo'u rhyw.

**13. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(b) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

13.1 Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod yr Aelod o fewn ei hawliau i feirniadu'r modd yr oedd y Clerc yn gweinyddu'r Cyngor os mai dyna oedd ei farn, ond roedd yn edrych ar y modd yr oedd yn mynegi'r feirniadaeth honno. Canfu'r Pwyllgor batrwm yn yr ohebiaeth o ymddygiad lle'r oedd yr Aelod yn beirniadu'r Clerc mewn modd oedd yn mynd y tu hwnt i'r hyn oedd yn dderbyniol beth bynnag fo barn yr Aelod am ei hymddygiad a'i pherfformiad fel clerc i'r Cyngor.

13.2 Teimlai'r Pwyllgor fod y geiriau a ddefnyddiwyd gan yr Aelod a thôn yr e-byst yn annerbyniol. Nid achos unigol oedd hyn ond yn hytrach batrwm cyson o feirniadaeth dros gyfnod sylweddol gan ddefnyddio termau dilornus personol amdani. Roedd hefyd yn cyfeirio ati sawl gwaith fel rhywun dibrofiad er iddi fod yn y swydd am 3 mlynedd, yn datgan bod ganddi feddwl llawer rhy uchel ohoni ei hun a'i gallu, a'i bod allan o reolaeth. Fe wnaeth hefyd gynnwys aelodau'r Cyngor yn yr ohebiaeth.

13.3 Er nad oedd o fewn cylch gorchwyl na phwerau'r Pwyllgor i benderfynu ar ymddygiad y Clerc ei hun fe wnaeth y Pwyllgor ei gymryd i ystyriaeth fel cyd-destun i ymddygiad yr Aelod. Tra'n derbyn bod yr aelod yn teimlo'n gryf am y modd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg a'i fod yn teimlo'n rhwystredig, nid oedd hynny yn rhoi esgus dros ymddwyn yn y modd y gwnaeth. Cyfrifoldeb yr Aelod oedd ei ymddygiad a neb arall.

13.4 Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn yng nghyd-destun y paragraff penodol yma am y sylw gan yr Aelod yn ei gyfweliad gyda'r Ombwdsmon wrth drafod ei ymddygiad tuag at y Clerc. Dywedodd yr Aelod ei fod yn credu nad oedd parch yn rhywbeth yr oedd gan rywun hawl iddo ond bod rhaid ei ennill. Roedd y Pwyllgor yn anghytuno ac mae'r Cod yn datgan yn glir bod rhaid dangos parch at eraill.

13.5 O ddod i'r casgliad fod yr ymddygiad wedi torri'r paragraff yma aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried Erthygl 10 Confensiwn Ewropeaidd Dros Hawliau Dynol. Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod lefel uwch o warchodaeth i sylwadau gwleidyddol ac y gall sylwadau am weinyddiaeth awdurdod gael eu cyfri fel rhai gwleidyddol. Serch hynny, fel yr eglurir gan yr Ombwdsmon yn ei adroddiad, *"nid yw'r hawl i amddiffyniad uwch a roddir i Gynghorwyr i wneud sylwadau gwleidyddol yn cynnwys yr hawl i wneud sylwadau personol di-alw-amdanynt neu sarhaus, nac ychwaith unrhyw sylwadau gwahaniaethol"*. Fe gymrodd y

Pwyllgor hefyd i ystyriaeth fod y sylwadau yma wedi eu cyfeirio at swyddog cyflogedig y Cyngor ac nid at aelod arall, lle y gellid disgwyl iddynt fod yn fwy ‘croendew’.

13.6 Roedd y Pwyllgor felly o’r farn fod y sylwadau yn mynd tu hwnt i sylwadau gwleidyddol fyddai’n cael eu gwarchod gan Erthygl 10.

**14. Canfu’r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(c) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

14.1 Canfu’r Pwyllgor fod ymddygiad yr Aelod yn gyfystyr â bwlio ac yn aflonyddu. Nodwyd bod Canllawiau’r Ombwdsmon yn disgrifio bwlio fel ymddygiad sy’n ceisio tanseilio unigolyn, yn niweidiol i’w hyder a’i gallu ac yn medru effeithio ar ei iechyd mewn modd niweidiol. Disgrifir aflonyddu yn y Canllawiau fel ymddygiad sy’n cael ei ail-adrodd sy’n cynhyrfu neu’n ypsetio pobl.

14.2 Roedd y Pwyllgor o’r farn bod yr Aelod drwy ei ohebiaeth yn ceisio tanseilio’r Clerc ac yn niweidiol i’w hyder. Roedd yn beirniadu nid yn unig ei gwaith a’i gallu ond hefyd ei chymeriad, ac yn gwneud hynny mewn gohebiaeth oedd wedi ei rannu ag aelodau eraill o’r Cyngor. Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi bod i ffwrdd o’i gwaith fel canlyniad i’r ymddygiad yma. Canfu’r Pwyllgor hefyd batrwm o’r math yma o ymddygiad oedd felly yn gyfystyr ag aflonyddu.

14.3 Tra bod gan yr aelod hawl i graffu ar, ac i feirniadu perfformiad y Clerc, roedd ei ymddygiad, ac yn enwedig y modd yr oedd wedi dewis mynegi ei anfodlonrwydd, yn mynd y tu hwnt i’r hyn fyddai’n dderbyniol hyd yn oed o ystyried y warchodaeth ychwanegol i sylwadau gwleidyddol eu natur.

**15. Canfu’r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

15.1 O edrych ar ymddygiad yr Aelod yn ei gyfanrwydd, roedd y Pwyllgor o’r farn ei fod yn ddigon difrifol ei natur fel ei fod yn dwyn anfri ar y Cyngor ac ar ei swydd fel aelod. Roedd yr ymddygiad wedi bod y niweidiol i’r berthynas o fewn y Cyngor, i’w weinyddiaeth ac wedi niweidio ei enw da.

**Cosb**

16. Roedd y Pwyllgor o’r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri cod ymddygiad. Ystyriodd yr hyn yr oedd gan yr Ombwdsmon i’w ddweud yn y gwrandawiad a’r materion sydd wedi eu nodi yng Nghanllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, fel ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol.

16.1 O safbwynt <u>ffactorau lliniarol</u> roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod yr Aelod wedi ymgysylltu gyda’r broses ymchwilio ond nodwyd hefyd sylwadau’r Ombwdsmon ei fod wedi bod yn ymchwiliad anodd iawn oherwydd ymddygiad yr Aelod.
Cydnabuwyd hefyd fod yr Aelod yn teimlo’n gryf iawn am y modd y roedd y Cyngor yn cael ei redeg, ei fod yn teimlo nad oedd ei sylwadau yn cael gwrandawiad a’i fod yn credu ei fod yn gweithredu yn ddidwyll.

16.3 Gan droi at <u>ffactorau gwaethygol</u>, canfu’r Pwyllgor fod nifer o’r rhain yn bresennol yn yr ymddygiad arweiniodd at y gŵyn ac yn ystod yr ymchwiliad:
Roedd yn ceisio beio pobl eraill yn annheg am weithredoedd ei hun,
Roedd yn arddangos diffyg dealltwriaeth o’i ymddygiad ac yn gwrthod derbyn ei fod wedi camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau allai ddeillio o hynny.
Roedd wedi anwybyddu cyngor a rhybuddion ynglŷn â’i ymddygiad, yn benodol gan yr Ombwdsmon ac yn dilyn ymchwiliad gan Un Llais Cymru.

Roedd yn gwrthod derbyn y ffeithiau er gwaethaf y dystiolaeth glir i'r gwrthwyneb

**16.4 Ar ôl ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod dderbyn cerydd, gan mai dyma yw'r gosb fwyaf gall y Pwyllgor ei roi yn dilyn ei ymddiswyddiad o'r Cyngor.**

**16.5 Serch hynny hoffai'r Pwyllgor gofnodi y byddai, heblaw am ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, yn debygol o fod wedi ei wahardd, a hynny am yr uchafswm posib.**

**16.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn iddo ystyried ac adlewyrchu ar ei ymddygiad, yn benodol y modd y mae'n siarad ac yn gohebu gydag eraill mewn unrhyw rôl gyhoeddus arall sydd ganddo ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ei annog i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad i aelodau.**

**Apêl**

17. Nodwyd y gallai'r Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd penderfyniad i lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Rhaid i'r cais am ganiatâd i apelio nodi'r rhesymau dros apelio a pa un a roddir caniatâd i apelio ai peidio, ei fod yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

18. Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) hysbysir yr Aelod, yr Achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o benderfyniad y Pwyllgor drwy Hysbysiad o Benderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 3.00 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **14 Chwefror 2022** |
| **Teitl :** | **Grŵp Tasg a Gorffen – Y Fframwaith Safonau Foesegol** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor** |

**Cefndir**

1. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog Monitro ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru yn ei gyfarfod diwethaf. Penderfynodd y pwyllgor sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod canfyddiadau'r Adolygiad, gan roi sylw penodol i'r materion isod, a chyflwyno argymhellion i gyfarfod nesaf y Pwyllgor:-

- Ffurf y Pwyllgor Safonau i'r dyfodol;
- Sut y gellir gwneud y pwyllgor yn fwy gweledol ac yn fwy gweithredol o fewn y Cyngor; a
- Sut y gellir cryfhau a gwneud y cydgysylltiad rhwng y pwyllgor a gwahanol wasanaethau'r Cyngor, megis y Gwasanaethau Democratiaeth, yn fwy amlwg.

2. Er mwyn hwyluso'r drafodaeth adnabuwyd y canlynol ymlaen llaw fel materion i'r Gweithgor eu hystyried:

- Ystyried Adroddiad Richard Penn, yn arbennig yr argymhellion
- Ystyried sut mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn gweithredu (cryfderau a gweiniadau)
- Themâu y gallai'r Pwyllgor eu dilyn yn y dyfodol
- Dulliau ymarferol o gyflawni dyletswyddau'r Pwyllgor

**Cyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen 20/1/22**

3. Cafwyd trafodaeth drylwyr a buddiol ac fe grynhoir canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor isod:

<u>Cynghorau Cymuned</u>

- Ymddengys mai ymysg y cynghorau cymuned y mae'r heriau mwyaf yn bodoli.

- Roedd rôl y clerc yn allweddol ac y dylid edrych ar y gefnogaeth a ellid ei gynnig iddynt.

- Ymddengys bod ystod eang o ran cyfrifoldebau, profiad a thâl ymysg clercod ac y byddai gwybodaeth am hynny'n ddefnyddiol.

- Byddai o fudd i'r Pwyllgor gael gwybodaeth fwy penodol ynglŷn â lle roedd problemau yn codi fel y gellid targedu sylw lle mae ei angen.

- Dylid dadansoddi'r amgylchiadau oedd yn dueddol o arwain at broblemau ymddygiad o fewn cynghorau cymuned fel y gellir cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth addas.

- Bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn gwneud darn o waith gyda chlercod cynghorau cymuned a thref i ddeall yn well beth yw eu hanghenion. Gellid adnabod rhai clercod penodol i gael y sgwrs gychwynnol, ac wedyn ei ymestyn allan. Gellid hefyd edrych ar drefn i alluogi clercod fwydo eu barn yn ôl yn barhaus.

<u>Y Cod Ymddygiad</u>

Gellid rhannu darpariaethau'r Cod Ymddygiad i ddau brif gategori sef

(1) Buddiannau
(2) Ymddygiad unigolion

<u>Datgan buddiant</u>

- Roedd hi'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth o ofynion y Cod yn enwedig ymysg rhai cynghorwyr tref/cymuned ynglŷn a phryd y dylid datgan buddaint ac ynghylch pryd y dylid peidio cymryd rhan mewn trafodaeth.

- Gofynnwyd i ba raddau roedd cysondeb yn y modd yr oedd y darpariaethau yma yn cael eu dehongli ar draws Cymru.

- Mae'r darpariaethau datgan buddiant yn rhai technegol iawn ac mae angen am ganllawiau syml.

- Roedd rhwystredigaeth yn aml nad oedd aelodau yn cael cymryd rhan mewn trafodaethau ar faterion lle mae ganddynt gyfraniadau i'w gwneud.

- Y dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor am y broses o wneud cais am oddefeb. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau ymarferol.

<u>Ymddygiad Unigolion</u>

- Mae'r hyn sy'n ymddygiad derbyniol yn fater o farn i raddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn gorff sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ac sy'n medru dod i farn ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol neu annerbyniol yn ôl yr angen. Serch hynny mae ystyriaethau ac egwyddorion cyfreithiol ynghlwm a phenderfynu ar ymddygiad hefyd - drwy ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol er enghraifft. Roedd hi'n bwysig felly cael dealltwriaeth o'r materion hyn ymysg aelodau'r Pwyllgor yn ogystal ag aelodau yn gyffredinol.

- Dylid felly fanteisio ar yr adnoddau ac arbenigedd ehangach sydd eisoes yn bodoli o fewn Cyngor, e.e. yn y maes adnoddau dynol ac yn y maes cydraddoldeb, i ddarparu hyfforddiant ar faterion ymddygiadol.

- Byddai'n fuddiol cael llyfryn bychan syml yn esbonio'r Cod Ymddygiad a ellid ei gyflwyno i aelodau wrth iddynt dderbyn eu swyddi.

- Dylid cynnal trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr ac Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau yn uwch yn eu meddyliau ac yn cael eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r Cyngor, h.y. fel bod safonau ddim yn fater sy'n eistedd gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro yn unig.

<u>Y Pwyllgor Safonau</u>

- Mae angen cynyddu proffil y Pwyllgor Safonau. Un modd o wneud hyn fyddai cael tudalen benodol ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys gwybodaeth am ei waith ac adnoddau i gynorthwyo aelodau a chlercod.

- Bydd angen ystyried sut y byddai trefn datrys leol yn gweithio gan gynnwys os byddai angen ffurfio is-bwyllgorau er enghraifft neu gyd-weithio gyda phwyllgorau eraill i sicrhau priodoldeb unrhyw broses o'r fath.

- Mynegwyd dyhead am fwy o wybodaeth yn benodol mwy o fanylion ynglŷn â honiadau fel y gellid deal yn well y sefyllfa r draws y sir o safbwynt beth oedd yn digwydd ac ym mhle. Byddai angen sicrhau na fyddai gwybodaeth o'r fath yn peryglu unrhyw gwynion byw ac unrhyw achos a allai ddod ger bron y Pwyllgor yn y dyfodol.

<u>Etholiadau</u>

- Roedd ymddygiad ymgeiswyr etholiadol yn gyfrifol y tu hwnt i gylch gorchwyl y pwyllgor gan nad oedd y cod yn berthnasol iddynt. Nodwyd serch y byddai'r cod yn berthnasol i ymgeiswyr oedd eisoes yn aelodau ac nad oedd hyn yn ymddangos yn deg. Dylid felly dwyn sylw'r grwpiau gwleidyddol y disgwylir ymddygiad priodol oddi wrth ymgeiswyr er nad oeddynt yn dod o dan awdurdodaeth y Cod.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion a sylwadau'r Grŵp Tasg a Gorffen.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **14 Chwefror 2022** |
| **TEITL :** | **Adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Michael Stevens o Gyngor Tref Tywyn** |
| **AWDUR :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **GWEITHREDU :** | **Cymeradwyo'r adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad** |

**Cefndir**

1. O dan ddarpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau"), mae'n ofynnol ar y Pwyllgor i gynhyrchu adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad uchod.

2. Rhaid gwneud hyn unai

(i) ar ôl i'r amser a ganiateir i gyflwyno apêl ddod i ben,
(ii) ar ôl i hysbysiad o gasgliad unrhyw apêl ddod i law, neu
(iii) ar ôl dyfarniad pellach gan y Pwyllgor Safonau mewn lle y mae tribiwnlys apêl wedi ei gyfeirio nôl ato,

p'un bynnag sy'n digwydd olaf

3. Derbyniwyd cadarnhad gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar 24 Ionawr 2022 bod y Cyng. Stevens wedi cyflwyno cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau ond ei bod wedi gwrthod y cais hwnnw gan ei bod o'r farn nad oedd rhagolwg rhesymol y byddai unrhyw un o'r seiliau a gyflwynwyd yn llwyddo.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad sydd wedi atodi i'w anfon at y Swyddog Monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Cyng. Stevens a'r achwynydd yn unol â gofynion y Rheoliadau

**Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd**

**Adroddiad ar ganlyniad cwyn a wnaed yn erbyn y Cynghorydd George Michael Stevens, Cyngor Tref Tywyn**

1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau").

2. Yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gŵyn yn erbyn y Cyng. Stevens, cyfeiriwyd y mater i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Mae penderfyniad y Pwyllgor a'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw wedi'u nodi'n llawn yn yr **Hysbysiad o Benderfyniad** sydd ynghlwm fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn.

3. Yn unol â'r Rheoliadau, anfonir copïau o'r adroddiad hwn at:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd
- Cyng. Michael Stevens
- Y sawl gyflwynodd y gŵyn

4. Yn dilyn derbyn yr adroddiad hwn, rhaid i'r Swyddog Monitro:

- gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr awdurdod perthnasol a threfnu bod copïau ar gael i'w harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol yn un neu ragor o swyddfeydd yr awdurdod, pan fydd gan unrhyw berson hawl i wneud copïau o'r adroddiad, neu ddetholiadau ohono.

- ddarparu copi o'r adroddiad i unrhyw berson ar gais

- heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod ar ôl i'r adroddiad ddod i law, rhoi hysbysiad cyhoeddus, drwy hysbyseb mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal ac unrhyw ffyrdd eraill sy'n ymddangos iddo ef neu hi yn briodol, y bydd copïau o'r adroddiad ar gael fel y darperir ar eu cyfer uchod.

**CYNGOR GWYNEDD**

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**

| | |
|---|---|
| **Aelod** | **Y Cynghorydd George Michael Stevens** |
| **Awdurdod Perthnasol** | **Cyngor Tref Tywyn** |
| **Dyddiad a Lleoliad y Gwrandawiad** | **8 Rhagfyr 2021, Cyfarfod rhithiol drwy Zoom** |
| **Achwynydd** | **Y Cynghorydd John Pughe** |
| **Rhif Cyf. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **201906873** |

**Cefndir**

1. Ystyriodd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i gŵyn a wnaed gan gadeirydd Pwyllgor Personél Cyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") y Cynghorydd John Pughe, bod y Cynghorydd George Michael Stevens ("yr Aelod") wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor.

2. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amharchus tuag at Glerc y Cyngor ar y pryd ("y Clerc") a'i fod wedi ei thanseilio dro ar ôl tro. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd gan yr Aelod at y Clerc a gohebiaeth a anfonwyd gan yr Aelod am y Clerc.

3. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod gohebiaeth yr Aelod yn cynnwys sylwadau personol difrïol a oedd yn amharchus ac mai bwriad y sylwadau ynglŷn â phrofiad y Clerc oedd tanseilio'r Clerc. Yn ychwanegol, defnyddiodd yr Aelod iaith â thuedd tuag at ryw benodol wrth wneud sylwadau am y Clerc.

4. Daeth yr Ombwdsmon i'r penderfyniad y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 4(a), 4(b) a 4(c), sy'n darparu:

*"4. Mae'n rhaid i chi:*
*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;*
*(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;*
*(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn*

Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid ystyried gweithredodd yr Aelod yn rhesymol fel ymddygiad a allai fod wedi torri paragraff 6 (1) (a) y Cod Ymddygiad:

*"6 (1) Mae'n rhaid i chi:*
*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;"*

5. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

**Y Gwrandawiad**

6. Cyflwynodd yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) (Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd oedd yn cynghori'r Pwyllgor) ei adroddiad ar gychwyn y gwrandawiad. Eglurodd fod yr Aelod wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Tref Tywyn ar 4 Rhagfyr 2021 a bod yr Aelod wedi cadarnhau nad oedd yn bwriadu mynychu'r gwrandawiad. Eglurodd nad oedd ymddiswyddiad yr Aelod yn newid yr angen i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar adroddiad yr Ombwdsmon. Serch hynny o safbwynt y cosbau oedd ar gael i'r Pwyllgor pe bai'n dod i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri'r Cod, ni fyddai gwahardd yr aelod bellach yn opsiwn.

7. Penderfynodd y Pwyllgor fwrw ymlaen gyda'r gwrandawiad ac ystyriodd adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon a'r dogfennau pellach oedd wedi eu cyflwyno ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y cyflwyniadau llafar gan Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gan Leigh McAndrew, Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon oedd yn bresennol yn y gwrandawiad.

**Y Penderfyniad**

8. Ystyriodd y Pwyllgor yn gyntaf unrhyw ganfyddiad o ffaith yr oedd angen iddo wneud. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth gan yr Aelod dros gyfnod o tua 12 mis. Roedd yr ohebiaeth yma wedi ei gynnwys yn y dystiolaeth ysgrifenedig gerbron ac nid oedd amheuaeth felly ynglŷn â'r hyn yr oedd yr Aelod wedi ei ddweud. Yr un mater ffeithiol perthnasol a nodwyd yn yr adroddiad fel un oedd yn destun amheuaeth oedd bod yr aelod yn gwadu iddo fwriadu anfon ei bost dyddiedig 22 Ionawr 2020 at holl aelodau Cyngor Gwynedd.

9. Ystyriodd y Pwyllgor y ffaith fod yr aelod wedi pwysleisio ei fod bob tro yn ofalus iawn yn y modd yr oedd yn gohebu, a'r ffaith y byddai'n amlwg wrth ysgrifennu'r e-bost a chyn ei anfon y byddai'r e-bost yn cael ei anfon at nifer fawr o bobl. Roedd yr e-bost dan sylw yn ymateb i wahoddiad cyffredinol i holl aelodau Cyngor Gwynedd gan y Pennaeth Cyllid. Roedd ffaith fod yr Aelod wedi dewis gwneud sylwadau beirniadol am y Swyddog Monitro yn ei ymateb yn hytrach na dim ond ymddiheuro na fyddai'n bresennol, yn awgrymu'n gryf ei fod wedi bwriadu i'r aelodau weld y sylwadau yma. Roedd y ffaith nad oedd yr e-bost yn cyfarch un derbynnydd yn benodol ( yn wahanol i nifer helaeth o'i e-byst eraill) yn atgyfnerthu'r canfyddiad hyn.

10. Penderfynodd y Pwyllgor felly, ei fod yn fodlon, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod yr Aelod wedi bwriadau anfon yr e-bost at yr holl aelodau.

11. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried ymddygiad yr Aelod, ac ar ôl ystyriaeth ofalus o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

**12. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

12.1 Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi defnyddio iaith yn seiliedig ar rywedd yn ei ohebiaeth gan ddefnyddio geiriau megis "misandrist"a "overbearing school mistress" i ddisgrifio'r Clerc gan ddweud amdani ei bod yn "slowly emsculating the Council". Roedd wedi parhau i ddefnyddio iaith o'r fath wrth gael ei gyfweld gan yr Ombwdsmon gan gyfeirio ati sawl gwaith fel "this/that woman"

a'i fod yn credu ei bod yn wir (fel y dywedodd rhywun wrtho) fod y Clerc yn "man-hating vegan" oherwydd ei chysylltiad gyda Plaid Cydraddoldeb Menywod .

12.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn fod yma batrwm o ddefnyddio iaith wahaniaethol tuag at, ac am y Clerc a bod yr ymddygiad yma gyda'i gilydd yn dangos bod yr Aelod wedi methu ag ymddwyn mewn modd oedd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth (ymysg materion eraill) fo'u rhyw.

**13. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(b) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

13.1 Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod yr Aelod o fewn ei hawliau i feirniadu'r modd yr oedd y Clerc yn gweinyddu'r Cyngor os mai dyna oedd ei farn, ond roedd yn edrych ar y modd yr oedd yn mynegi'r feirniadaeth honno. Canfu'r Pwyllgor batrwm yn yr ohebiaeth o ymddygiad lle'r oedd yr Aelod yn beirniadu'r Clerc mewn modd oedd yn mynd y tu hwnt i'r hyn oedd yn dderbyniol beth bynnag fo barn yr Aelod am ei hymddygiad a'i pherfformiad fel clerc i'r Cyngor.

13.2 Teimlai'r Pwyllgor fod y geiriau a ddefnyddiwyd gan yr Aelod a thôn yr e-byst yn annerbyniol. Nid achos unigol oedd hyn ond yn hytrach batrwm cyson o feirniadaeth dros gyfnod sylweddol gan ddefnyddio termau dilornus personol amdani. Roedd hefyd yn cyfeirio ati sawl gwaith fel rhywun dibrofiad er iddi fod yn y swydd am 3 mlynedd, yn datgan bod ganddi feddwl llawer rhy uchel ohoni ei hun a'i gallu, a'i bod allan o reolaeth. Fe wnaeth hefyd gynnwys aelodau'r Cyngor yn yr ohebiaeth.

13.3 Er nad oedd o fewn cylch gorchwyl na phwerau'r Pwyllgor i benderfynu ar ymddygiad y Clerc ei hun fe wnaeth y Pwyllgor ei gymryd i ystyriaeth fel cyd-destun i ymddygiad yr Aelod. Tra'n derbyn bod yr aelod yn teimlo'n gryf am y modd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg a'i fod yn teimlo'n rhwystredig, nid oedd hynny yn rhoi esgus dros ymddwyn yn y modd y gwnaeth. Cyfrifoldeb yr Aelod oedd ei ymddygiad a neb arall.

13.4 Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn yng nghyd-destun y paragraff penodol yma am y sylw gan yr Aelod yn ei gyfweliad gyda'r Ombwdsmon wrth drafod ei ymddygiad tuag at y Clerc. Dywedodd yr Aelod ei fod yn credu nad oedd parch yn rhywbeth yr oedd gan rywun hawl iddo ond bod rhaid ei ennill. Roedd y Pwyllgor yn anghytuno ac mae'r Cod yn datgan yn glir bod rhaid dangos parch at eraill.

13.5 O ddod i'r casgliad fod yr ymddygiad wedi torri'r paragraff yma aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried Erthygl 10 Confensiwn Ewropeaidd Dros Hawliau Dynol. Roedd y Pwyllgor yn derbyn bod lefel uwch o warchodaeth i sylwadau gwleidyddol ac y gall sylwadau am weinyddiaeth awdurdod gael eu cyfri fel rhai gwleidyddol. Serch hynny, fel yr eglurir gan yr Ombwdsmon yn ei adroddiad, *"nid yw'r hawl i amddiffyniad uwch a roddir i Gynghorwyr i wneud sylwadau gwleidyddol yn cynnwys yr hawl i wneud sylwadau personol di-alw-amdanynt neu sarhaus, nac ychwaith unrhyw sylwadau gwahaniaethol"*. Fe gymrodd y Pwyllgor hefyd i ystyriaeth fod y sylwadau yma wedi eu cyfeirio at swyddog cyflogedig y Cyngor ac nid at aelod arall, lle y gellid disgwyl iddynt fod yn fwy 'croendew'.

13.6 Roedd y Pwyllgor felly o'r farn fod y sylwadau yn mynd tu hwnt i sylwadau gwleidyddol fyddai'n cael eu gwarchod gan Erthygl 10.

**14. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(c) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

14.1 Canfu'r Pwyllgor fod ymddygiad yr Aelod yn gyfystyr â bwlio ac yn aflonyddu. Nodwyd bod Canllawiau'r Ombwdsmon yn disgrifio bwlio fel ymddygiad sy'n ceisio tanseilio unigolyn, yn niweidiol i'w hyder a'i gallu ac yn medru effeithio ar ei iechyd mewn modd niweidiol. Disgrifir aflonyddu yn y Canllawiau fel ymddygiad sy'n cael ei ail-adrodd sy'n cynhyrfu neu'n ypsetio pobl.

14.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr Aelod drwy ei ohebiaeth yn ceisio tanseilio'r Clerc ac yn niweidiol i'w hyder. Roedd yn beirniadu nid yn unig ei gwaith a'i gallu ond hefyd ei chymeriad, ac yn gwneud hynny mewn gohebiaeth oedd wedi ei rannu ag aelodau eraill o'r Cyngor. Nodwyd hefyd bod y Clerc wedi bod i ffwrdd o'i gwaith fel canlyniad i'r ymddygiad yma. Canfu'r Pwyllgor hefyd batrwm o'r math yma o ymddygiad oedd felly yn gyfystyr ag aflonyddu.

14.3 Tra bod gan yr aelod hawl i graffu ar, ac i feirniadu perfformiad y Clerc, roedd ei ymddygiad, ac yn enwedig y modd yr oedd wedi dewis mynegi ei anfodlonrwydd, yn mynd y tu hwnt i'r hyn fyddai'n dderbyniol hyd yn oed o ystyried y warchodaeth ychwanegol i sylwadau gwleidyddol eu natur.

**15. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri pargraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

15.1 O edrych ar ymddygiad yr Aelod yn ei gyfanrwydd, roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod yn ddigon difrifol ei natur fel ei fod yn dwyn anfri ar y Cyngor ac ar ei swydd fel aelod. Roedd yr ymddygiad wedi bod y niweidiol i'r berthynas o fewn y Cyngor, i'w weinyddiaeth ac wedi niweidio ei enw da.

**Cosb**

16. Roedd Pwyllgor o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri cod ymddygiad. Ystyriodd yr hyn yr oedd gan yr Ombwdsmon i'w ddweud yn y gwrandawiad a'r materion sydd wedi eu nodi yng Nghanllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, fel ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol.

16.1 O safbwynt <u>ffactorau lliniarol</u> roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod yr Aelod wedi ymgysylltu gyda'r broses ymchwilio ond nodwyd hefyd sylwadau'r Ombwdsmon ei fod wedi bod yn ymchwiliad anodd iawn oherwydd ymddygiad yr Aelod.
Cydnabuwyd hefyd fod yr Aelod yn teimlo'n gryf iawn am y modd y roedd y Cyngor yn cael ei redeg, ei fod yn teimlo nad oedd ei sylwadau yn cael gwrandawiad a'i fod yn credu ei fod yn gweithredu yn ddidwyll.

16.3 Gan droi at <u>ffactorau gwaethygol</u>, canfu'r Pwyllgor fod nifer o'r rhain yn bresennol yn yr ymddygiad arweiniodd at y gŵyn ac yn ystod yr ymchwiliad:
Roedd yn ceisio beio pobl eraill yn annheg am weithredoedd ei hun,
Roedd yn arddangos diffyg dealltwriaeth o'i ymddygiad ac yn gwrthod derbyn ei fod wedi camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau allai ddeillio o hynny.
Roedd wedi anwybyddu cyngor a rhybuddion ynglŷn â'i ymddygiad, yn benodol gan yr Ombwdsmon ac yn dilyn ymchwiliad gan Un Llais Cymru.
Roedd yn gwrthod derbyn y ffeithiau er gwaethaf y dystiolaeth glir i'r gwrthwyneb

**16.4 Ar ôl ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod dderbyn cerydd, gan mai dyma yw'r gosb fwyaf gall y Pwyllgor ei roi yn dilyn ei ymddiswyddiad o'r Cyngor.**


**16.5 Serch hynny hoffai'r Pwyllgor gofnodi y byddai, heblaw am ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, yn debygol o fod wedi ei wahardd, a hynny am yr uchafswm posib.**

**16.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn iddo ystyried ac adlewyrchu ar ei ymddygiad, yn benodol y modd y mae'n siarad ac yn gohebu gydag eraill mewn unrhyw rôl gyhoeddus arall sydd ganddo ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ei annog i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad i aelodau**

**Apêl**

17. Caiff yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd penderfyniad hwn i lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Rhaid i'r cais am ganiatâd i apelio nodi'r rhesymau dros apelio a pa un a roddir caniatâd i apelio ai peidio, ei fod yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. (Ceir manylion pellach ar wefan y Panel dyfarnu www.paneldyfarnu.llyw.cymru )

18. Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) hysbysir yr Aelod, yr Achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o benderfyniad y Pwyllgor drwy'r Hysbysiad o Benderfyniad hwn.

Arwyddwyd: 

Dr Einir Young, Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2021

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **14 Chwefror 2022** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth  yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| Cwyn | Penderfyniad |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202002215 & 202002555** | Yn dilyn ymchwiliad cyfeiriodd yr Ombwdsmon gwynion yn erbyn y Cynghorydd Roy Owen at Banel Dyfarnu Cymru.<br><br>Penderfynodd Tribiwnlys y dylid atal y cynghorydd rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Frenhinol Caaernarfon am gyfnod o 9 mis neu, os yn gyfnod llai , hyd nes diwedd ei dymor mewn swydd.<br><br>Gellir gweld penderfyniad llawn y Panel ar ei wefan (www.paneldyfarnu.llyw.cymru) neu drwy ddilyn y ddolen ganlynol<br><br>Penderfyniadau \| The Adjudication Panel for Wales (llyw.cymru) |
| **Cwyn Rhif 201906873** | Yn dilyn ymchwiliad cyfeiriodd yr Ombwdsmon gwynion yn erbyn y Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn at y Pwyllgor Safonau.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor y dylid ceryddu'r aelod. Hon oedd y gosb fwyaf oedd ar gael i'r Pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad yr aelod or' Cyngor Tref.  Ceir manylion pellach mewn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| | |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2021/22):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 5 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 1 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 3 |
| Aelod o'r cyhoedd | 3 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 7 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 4 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | 1 |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio 1**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad 2**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau 0**
- **Wedi eu cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru 0**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **14 Chwefror 2022** |
| **Teitl :** | **Adroddiadau Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2019–20 a 2020-21** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |

<u>Cefndir</u>

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad.  Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel er sylw'r Pwyllgor.

<u>Argymhelliad</u>

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

## Blwyddyn 2019 – 2020

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom Ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Crynodebau o Achosion | 12 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 15 |
| **Adran 5** | Gwariant | 16 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41478 ISBN digidol 978-1-80082-083-8

# Rhagair

Dyma fy mhumed adroddiad blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd y cyhoedd drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod mor fyr ag sy'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei drin yn deg er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Roedd yr achosion a gafodd eu gwrando yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys amrywiaeth o honiadau o dorri'r Cod, ond ar gyfer pob achos cododd y cwestiwn ynghylch a oedd y cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod. Diben y Cod, y pwyllgor safonau a'r Panel yw sicrhau bod safonau mewn bywyd cyhoeddus yn cael eu pennu'n glir a'u dilyn, a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Mae'r agwedd hon ar "fudd y cyhoedd" yn parhau i fod yn hollbwysig fel yr adlewyrchir yn y Canllawiau ar Gosbau.

Mae'r Panel wedi datblygu i sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn effeithlon ac i ehangu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael iddo. Penodwyd dau aelod cyfreithiol newydd, a chymerodd y Panel ran yn y broses o groes-docynnu aelodau lleyg er mwyn penodi aelod arall. Roeddwn yn falch o weld llwyddiant y broses o groes-docynnu ein haelodau i chwaer-dribiwnlysoedd, gan ddangos galluoedd ein haelodau a datblygu crefft y barnwr yn drawsawdurdodaethol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, dechreuodd y Panel ddefnyddio technoleg sy'n ei alluogi i wrando achosion o bell ac yn gyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod gwaith y Panel wedi gallu parhau er gwaethaf y pandemig sy'n mynd rhagddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, a gall arwain at newidiadau i'n gweithdrefnau; er enghraifft, mae'n bosibl y caiff adolygiadau cyn gwrandawiad eu cynnal ar ffurf rithwir, gan arbed costau ac amser teithio. Cyflwynwyd Cyfarwyddyd Ymarfer cyntaf y Panel er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau'r ffurflen ymateb yn llawn a'r canlyniadau os na fyddant yn gwneud hynny.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Sail ar gyfer PDC
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio PDC

## Sail ar gyfer PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth PDC

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan y Panel ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau PDC

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a gaiff ei wrando gan y Panel yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Panel. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd);
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

## Proses PDC

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i Banel Dyfarnu Cymru lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at y Panel.

Mewn gwrandawiad gan Banel Dyfarnu Cymru bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir y gwrandawiadau yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i gyflwyno apêl iddo.

Mae canllawiau a gwybodaeth lawn am Banel Dyfarnu Cymru a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan. Fel arall, cysylltwch â'r tîm gweinyddol i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 7.


## Aelodau PDC

Mae penodiadau i Banel Dyfarnu Cymru yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog Cymru ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros y Panel a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r Panel ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Panel. |

**Y Tîm Gweinyddol**

Mae'r gweithrediadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo yn bennaf i'r tîm gweinyddol sy'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau sy'n dod i law. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr y Panel, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.




## Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi penodi un aelod lleyg newydd sydd wedi'i groes-docynnu o dribiwnlys arall. Penodwyd dau aelod cyfreithiol newydd (drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol) o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi ar 10 Mai 2019, gyda phwyslais parhaus ar grefft y barnwr. Cynhaliwyd sesiynau ar gyfathrebu a rhyddid i lefaru hefyd. Yn ogystal, cafodd yr holl aelodau newydd hyfforddiant cynefino (aelodau cyfreithiol ym mis Mai 2019 a'r aelod lleyg ym mis Ebrill 2020).

Mae rhaglen o werthuso perfformiad ar gyfer aelodau'r Panel wedi cael ei chwblhau yn ystod blynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y rhaglen nesaf o werthuso perfformiad yr aelodau yn dechrau yn ystod blwyddyn 2020/21, yn dibynnu ar y pandemig.

## Cysylltu â PDC

I gysylltu â Thîm Gweinyddol PDC:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad PDC: | Panel Dyfarnu Cymru<br>Oak House<br>Parc Cleppa<br>Celtic Springs<br>Casnewydd<br>NP10 8BD |
| Llinell Gymorth:<br>E-bost PDC: | 03000 259805<br>adjudication.panel@gov.wales |

## Defnyddio PDC

Mae'r Panel yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o bum mlynedd i ganiatáu cymharu.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu casglu:


- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law fesul blwyddyn





*Roedd ffigur 2018-2019 wedi'i nodi'n anghywir yn Adroddiad Blynyddol 2018-2019 ac mae wedi'i gywiro uchod.

Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn, Ebrill 2015-Mawrth 2020





Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau, Ebrill 2015-Mawrth 2020

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt gan y Panel Dyfarnu dros y pum mlynedd diwethaf



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math, Ebrill 2015-Mawrth 2020




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2019-2020:

| **Math** | **Hyd (mewn diwrnodau)** |
|---|---|
| Atgyfeiriad | 5 diwrnod gwrandawiad |
| Apêl | 0 diwrnod gwrandawiad |

Hefyd, cynhaliwyd tair cynhadledd dros y ffôn mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes, sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2018-2019

| | |
|---|---|
| **Targed:** wedi ymdrin â 95% o ymholiadau neu wedi derbyn 95% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt gyrraedd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 66% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i atebydd/apelydd o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad a ohiriwyd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o'r hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 90% o'r penderfyniadau wedi'u cyhoeddi cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 75% o'r ceisiadau cyn pen 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |

## Cwynion

Ni chafodd Panel Dyfarnu Cymru unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.

# Adran 3 – Crynodebau o achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd tri thribiwnlys achos o ganlyniad i atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon. Mae crynodeb o'r achos a benderfynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w weld isod.

### APW/001/2018-019/CT
### Cyngor Sir Fynwy (Cyngor Cymuned Matharn ar hyn o bryd)

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Fynwy drwy ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar ei awdurdod.

Daeth yr ymddygiad i'r amlwg yn ystod tribiwnlys achos blaenorol yn ymwneud â'r cynghorydd (lle canfuwyd ei fod wedi gwneud datganiadau homoffobig dros sawl mis yn 2016 a chafodd ei atal am ddeufis gan y Panel) ac yn fuan ar ôl y gwrandawiad hwnnw. Gwnaeth y cynghorydd ddau ddatganiad ym mis Gorffennaf 2018 pan oedd y Panel yn cyflwyno ei ddyfarniad mewn perthynas â chosb yn y tribiwnlys achos cyntaf ac mewn llythyr a anfonwyd at y Panel yn ddiweddarach, yr honnwyd eu bod yn torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod.

Diystyrodd y tribiwnlys achos yr atgyfeiriad am nad oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael honiad ysgrifenedig fel sy'n ofynnol o dan adran 69(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn dechrau ymchwiliad gerbron ail dribiwnlys achos. Nid oedd yn derbyn y gallai'r Ombwdsmon ddibynnu ar yr honiad ysgrifenedig a gafwyd am y tribiwnlys achos cyntaf gan nad oedd yr honiadau gerbron yr ail dribiwnlys achos wedi cael eu dwyn at ei sylw o ganlyniad i'r ymchwiliad a gynhaliwyd ar gyfer y tribiwnlys achos cyntaf.

### APW/002/2018-019/CT
### Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog drwy beidio â dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt, ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar ei awdurdod, a defnyddio neu geisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall.

Deilliodd yr achos o ddigwyddiad yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol lle cyffyrddodd y cynghorydd â rhan o gorff cynghorydd arall a arweiniodd at gŵyn. Wedi hynny, gwnaeth y cynghorydd cyhuddedig nifer o sylwadau i drydydd partïon yr ymddengys eu bod yn bygwth canlyniadau petai'r gŵyn yn mynd ymhellach; arweiniodd y sylwadau hyn at gŵyn newydd gan un o'r trydydd partïon a oedd yn bresennol.

Daeth y tribiwnlys achos i'r penderfyniad unfrydol fod y cynghorydd wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel a ganlyn.

- Rhaid i chi ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt (paragraff 4(b));
- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Rhaid i chi, yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall (paragraff 7(a)).

Daeth y tribiwnlys achos i'r penderfyniad unfrydol y dylai'r cynghorydd gael ei atal am bedwar mis rhag bod yn aelod o Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000. Argymhellodd hefyd y dylai'r cynghorydd gael hyfforddiant pellach mewn perthynas â'i ddyletswyddau o dan y Cod Ymddygiad gan swyddog monitro Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, neu ar ei ran, erbyn 31 Ionawr 2020.

### APW/001/2019-020/CT
### Cyngor Sir y Fflint

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar ei awdurdod; drwy ddefnyddio neu geisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall; a thrwy ddefnyddio adnoddau'r awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio, yn annoeth, yn groes i ofynion yr awdurdod, yn anghyfreithlon, ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr oedd wedi'i ethol neu ei benodi iddo neu iddi, yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol, neu'n amhriodol at ddibenion preifat.

Roedd yr honiadau'n canolbwyntio ar ymddygiad honedig y cynghorydd yn ymwneud ag un aelod o staff y cyngor. Honnwyd bod y cynghorydd wedi cynorthwyo'r aelod o staff drwy roi cyfle iddi weld cwestiynau cyfweliad, a'i fod hefyd wedi caniatáu i'r aelod o staff ddefnyddio cerbyd a gafodd ei hurio drwy gynllun y cyngor yn groes i baragraff 7(b) o'r Cod. Yn ogystal, honnwyd bod y cynghorydd wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod drwy ddefnyddio'r cerbyd, neu awdurdodi'r aelod o staff i'w ddefnyddio, a thrwy gyfnewid negeseuon amhriodol â'r aelod o staff, gan gynnwys rhai o natur rywiol.

Daeth y tribiwnlys achos i'r penderfyniad unfrydol fod y cynghorydd wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint fel a ganlyn:

- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Rhaid i chi, yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall (paragraff 7(a)).

Daeth y tribiwnlys achos i’r penderfyniad unfrydol y dylai’r cynghorydd gael ei atal am dri mis rhag bod yn aelod o Gyngor Sir y Fflint o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## Apeliadau

Gwnaed un cais i apelio i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw. Rhoddwyd caniatâd i apelio yn erbyn y gosb a osodwyd gan bwyllgor safonau’r awdurdod perthnasol a chwblhawyd yr apêl yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2020-2021

Mae'n bwysig bod Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Panel yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2020-2021

- Cynllunio a darparu digwyddiad hyfforddiant i'r holl aelodau;
- Cwblhau strategaeth gyfathrebu er mwyn rhannu gwybodaeth am Banel Dyfarnu Cymru a'i waith â'r cyhoedd mewn ffordd fwy hygyrch, gan gynnwys diweddaru gwefan y Panel i gynnwys dulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai ysgrifenedig;
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Darparu canllawiau pellach i ddefnyddwyr ar amrywiaeth o bynciau.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2019-2020

## Gwariant ar gyfer 2019-2020

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau (achosion a hyfforddiant) | £30,072 |
| Digwyddiadau tribiwnlys (costau gwrandawiad a chostau eraill) | £4,006 |
| **Cyfanswm** | **£34,078** |

wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf

# Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

## Blwyddyn 2020 – 2021

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Crynodebau o achosion | 12 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 15 |
| **Adran 5** | Gwariant | 16 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42958 ISBN digidol 978-1-80195-528-7

# Rhagair

Dyma fy chweched adroddiad blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd y cyhoedd drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod mor fyr ag sy'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei drin yn deg er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Does dim amheuaeth bod eleni wedi bod yn flwyddyn heb ei thebyg, nid yn unig i Banel Dyfarnu Cymru, ond i bawb. Mae technoleg o bell wedi galluogi'r Panel i barhau â'i waith heb amhariad. Er bod y defnydd o dechnoleg o'r fath yn debygol o aros yn y tymor hir, rydym yn gobeithio dychwelyd yr agwedd "wyneb yn wyneb" ar ein gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf (yn dibynnu ar ganllawiau cadw pellter cymdeithasol). Wedi dweud hynny, gall gwrandawiadau rhithwir ei gwneud yn haws i'r cyhoedd fynychu ein gwrandawiadau a gynhelir yn gyhoeddus yn bennaf er mwyn sicrhau tryloywder ac ategu'r egwyddor cyfiawnder agored. Bydd Panel Dyfarnu Cymru yn edrych ar achosion fesul un er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o gynnal gwrandawiad.

Yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, cyhoeddodd Panel Dyfarnu Cymru dair dogfen Canllawiau'r Llywydd yn ymwneud â datgelu, anonymeiddio a rôl y swyddog monitro. Paratowyd y dogfennau hyn ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid ac i sicrhau cysondeb a dealltwriaeth ddyfnach o'n prosesau. Rwy'n gobeithio hefyd y gall y canllawiau gynorthwyo pwyllgorau safonau llywodraeth leol lle y bo'n briodol wrth iddynt ymdrin â'u gwrandawiadau eu hunain.

Mae Panel Dyfarnu Cymru wedi diweddaru ei wefan i gynnwys fideos gwybodaeth a chrynodebau am y Panel a'i brosesau, gyda'r nod o esbonio ein gwaith a'n rôl i'r cyhoedd mewn ffordd hygyrch. Oherwydd y pandemig, nid oeddem yn gallu mynychu digwyddiadau yn ôl y bwriad.

Hoffwn dalu teyrnged i holl aelodau'r Panel a'r weinyddiaeth, gan gynnwys y Cofrestrydd, a diolch iddynt am barhau i gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus yn deg, yn effeithlon ac yn broffesiynol. Mae eu hymrwymiad i wneud hynny, hyd yn oed pan oeddent hwy, eu hanwyliaid neu eu cymuned wedi'u heffeithio gan COVID-19, yn rhywbeth yr wyf yn hynod falch ohono.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Y sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru
- Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru
- Rheoliadau Panel Dyfarnu Cymru
- Proses Panel Dyfarnu Cymru
- Aelodau Panel Dyfarnu Cymru
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â Phanel Dyfarnu Cymru
- Defnyddio Panel Dyfarnu Cymru

## Y sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan y Panel ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod;
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos sy'n cael ei glywed gan y Panel yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Panel. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd);
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)).

## Proses Panel Dyfarnu Cymru

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i Banel Dyfarnu Cymru lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at y Panel.

Mewn gwrandawiad gan Banel Dyfarnu Cymru bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir y gwrandawiadau yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i gyflwyno apêl iddo.

Mae canllawiau a gwybodaeth lawn am Banel Dyfarnu Cymru a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan. Fel arall, cysylltwch â'r tîm gweinyddol i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 7.


## Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Mae penodiadau i Banel Dyfarnu Cymru yn cael eu gwneud gan y Prif Weinidog ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros y Panel a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r Panel ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Panel. |

**Y Tîm Gweinyddol**

Mae'r gweithrediadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i raddau helaeth i'r tîm gweinyddol sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau sy'n dod i law. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr y Panel, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.




## Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, nid ydym wedi penodi unrhyw aelodau newydd.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi ar 1 Mai 2020, gyda phwyslais parhaus ar grefft y barnwr; yn enwedig o ran bod yn agored i niwed a datblygu ymarfer myfyriol. Cynhaliwyd sesiynau ar geisiadau i glywed achosion yn breifat a'r dechnoleg i gefnogi gwaith y Panel hefyd. Cafodd aelod lleyg hyfforddiant cynefino ym mis Ebrill 2020.

Mae rhaglen o werthuso perfformiad ar gyfer aelodau'r Panel wedi cael ei chwblhau yn ystod blynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y rhaglen nesaf o werthuso perfformiad yr aelodau yn dechrau yn ystod blwyddyn 2021-22, yn dibynnu ar sefyllfa'r pandemig.

## Cysylltu â’r Panel

I gysylltu â Thîm Gweinyddol Panel Dyfarnu Cymru:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y Panel: | Panel Dyfarnu Cymru<br>Oak House<br>Parc Cleppa<br>Celtic Springs<br>Casnewydd<br>NP10 8BD |
| Llinell Gymorth: | 03000 259805 |
| E-bost: | adjudication.panel@llyw.cymru |

## Defnyddio’r Panel

Mae’r Panel yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy’n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod o’r staff sy’n siarad Cymraeg eich ffonio chi’n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a’ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i’r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy’n dod gyda chi i’r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i’r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o bum mlynedd i ganiatáu cymharu.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu casglu:


- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law fesul blwyddyn





* Roedd ffigur 2018-2019 wedi'i nodi'n anghywir yn Adroddiad Blynyddol 2018-2019 ac mae wedi'i gywiro uchod.

Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn, Ebrill 2016-Mawrth 2021





Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2016-Mawrth 2021

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt gan y Panel dros y pum mlynedd diwethaf



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math, Ebrill 2016-Mawrth 2021




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2020-2021:

| **Math** | **Hyd (mewn diwrnodau)** |
|---|---|
| Atgyfeiriad | 3 diwrnod gwrandawiad |
| Apêl | 1 diwrnod gwrandawiad |

Cynhaliwyd un gynhadledd trefnu mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd, ond cafodd un cynghorydd estyniad i'r cyfnod apelio.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2020-2021

| | |
|---|---|
| **Targed:** wedi ymdrin â 95% o ymholiadau neu wedi derbyn 95% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt gyrraedd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i atebydd/apelydd o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad a ohiriwyd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o'r hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Amherthnasol – ni chafodd hysbysiadau eu cyflwyno |
| **Targed:** 90% o'r penderfyniadau wedi'u cyhoeddi cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 75% o'r ceisiadau cyn pen 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |

## Cwynion

Ni chafodd Panel Dyfarnu Cymru unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.

# Adran 3: Crynodebau o Achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd dau dribiwnlys achos o ganlyniad i atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon. Mae crynodebau o'r achosion a benderfynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w gweld isod:

### APW/001/2020-021/CT
### Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i God Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy fethu â dangos parch a bod yn ystyriol at eraill, gan ymddwyn mewn modd a ystyriwyd a oedd yn dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, gan fethu â datgelu buddiant personol ym musnes y cyngor wrth fynychu cyfarfod neu wneud sylwadau ysgrifenedig, ceisio dylanwadu ar benderfyniadau gan y cyngor pan oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu (heb gael caniatâd), a gwneud sylwadau llafar mewn perthynas â mater yr oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo (heb gael caniatâd).

Roedd y cynghorydd yn Arweinydd y Cyngor. Deilliodd yr achos o bryniant yr eiddo y drws nesaf i gartref y cynghorydd gan sefydliad preifat, gyda'r bwriad o ddarparu cartref i blant o gefndiroedd cythryblus. Yn ogystal, honnwyd bod ymddygiad y cynghorydd tuag at brif weithredwr y cyngor, ar y pryd, o flaen swyddogion eraill wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel a ganlyn:

- Rhaid i chi ddangos parch a bod yn ystyriol at eraill (paragraff 4(b));
- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Os oes gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod a'ch bod yn mynychu cyfarfod lle caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid ichi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant cyn neu ar ddechrau'r eitem honno, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg (paragraff 11(1));
- Os oes gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod a'ch bod yn gwneud – (a) sylwadau ysgrifenedig (boed drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o ohebiaeth electronig) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod ynglŷn â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn yr ohebiaeth ysgrifenedig (paragraff 11(2)(a));
- Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau eich awdurdod, rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad am y busnes hwnnw (paragraff 14(1)(c));

- Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan bwyllgor safonau eich awdurdod, rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o ohebiaeth electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw (paragraff 14(1)(d));
- Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau eich awdurdod, rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar mewn perthynas â'r busnes hwnnw (paragraff 14(1)(e)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd am gyfnod o 7 mis ac argymhellwyd ei fod yn mynychu hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad o fewn mis i ailddechrau yn ei swydd fel cynghorydd. Canfu fod buddiant y cynghorydd yn bersonol ac yn rhagfarnu, a'i fod wedi methu â dilyn cyngor y swyddog monitro ynglŷn â sut i ddelio â'r mater. Nododd y Tribiwnlys Achos hefyd fod ymddygiad y cynghorydd tuag at y prif weithredwr yn "*inappropriate, hectoring and uninterruptible, and went beyond assertiveness*". Roedd o'r farn bod y cynghorydd wedi dangos diffyg dealltwriaeth o'i gamymddygiad.

Cafodd y cynghorydd estyniad i'r cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Achos gan yr Uchel Lys, ond ni wnaeth apelio yn erbyn y penderfyniad yn y pen draw.

### APW/002/2020-021/CT
### Cyngor Cymuned Sili a Larnog

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Cymuned Sili a Larnog drwy ddwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod a methu â darparu gwybodaeth a thystiolaeth ar gais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'i bwerau statudol.

Cododd yr achos o sylwadau a wnaed gan y cynghorydd ar ei gyfrif Facebook rhwng 10 Ionawr 2019 ac 11 Mawrth 2019. Yn y sylwadau hynny, gwnaeth y cynghorydd nifer o sylwadau am dair gwleidydd benywaidd etholedig a Shamima Begum. Honnodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nad oedd ei sylwadau'n weladwy i'r cyhoedd, ond methodd â datgelu ei log gweithgarwch a chadarnhad a honnodd iddo ei gael gan Facebook am statws ei gyfrif, er gwaethaf ceisiadau gan yr Ombwdsmon.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Cymuned Sili a Larnog fel a ganlyn:

- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod." (Paragraff 6(1)(a));
- Rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u priod bwerau statudol." (Paragraff 6(2)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad drwy benderfyniad unfrydol y dylai'r cynghorydd gael ei wahardd rhag gwneud swydd mewn awdurdod perthnasol am gyfnod o 15 mis. Canfu fod sylwadau'r cynghorydd yn ymfflamychol ac yn eithafol, yn fygythiol eu natur ac yn hyrwyddo trais tuag at unigolion. Ychwanegodd y tribiwnlys fod y cynghorydd wedi osgoi darparu gwybodaeth neu ymatebion llawn a gonest i'r Ombwdsmon yn fwriadol.

## Apeliadau

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd un tribiwnlys apêl a oedd yn deillio o benderfyniad gan bwyllgor safonau llywodraeth leol. Mae crynodeb o'r achos a benderfynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w weld isod:

### APW/002/2019-020/AT
### Cyngor Caerdydd

Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn groes i God Ymddygiad Cyngor Caerdydd ac y dylid ei wahardd o'i swydd am 4 mis.

Deilliodd yr achos o ymddygiad y cynghorydd tuag at staff mewn cartref i blant a'i ymwneud ag achos plentyn yng ngofal y cartref hwnnw. Roedd y pwyllgor safonau wedi canfod ar 14 Ionawr 2020 bod y cynghorydd, ar 29 Ebrill 2018 ac 11 Mai 2018, wedi mynd yn groes i'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad:

- Rhaid i chi ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill (paragraff 4(b));
- Peidiwch â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol i ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod (paragraff 6(1)(a)).

Gwnaeth y cynghorydd gais am ganiatâd i apelio i'r Llywydd. Caniatawyd i'r apêl fynd rhagddi mewn perthynas â'r gosb a osodwyd yn unig; dadleuodd y cynghorydd fod y gosb yn rhy llym a/neu'n anghymesur.

Roedd y Tribiwnlys Apêl, drwy benderfyniad unfrydol, yn cymeradwyo'r gosb o waharddiad am bedwar mis a osodwyd gan y pwyllgor safonau. Roedd o'r farn bod yr enghreifftiau o fynd yn groes i'r Cod gan y cynghorydd yn "*eithaf difrifol, gan ymylu ar fod yn ddifrifol iawn*", ac yn ailadroddus. Nododd y Tribiwnlys Apêl fod y cynghorydd wedi cael ei gosbi'n flaenorol gan y Panel am gamymddwyn tebyg a'i fod wedi dangos diffyg dealltwriaeth.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2021-2022

Mae'n bwysig bod Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Panel yn adeiladu ar ei lwyddiannau trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau Busnes 2021-2022

- Cynllunio a darparu digwyddiad hyfforddiant i'r holl aelodau;
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Yn ddibynnol ar sefyllfa'r pandemig, dychwelyd fel y bo'n briodol i wrandawiadau "wyneb yn wyneb" a mynychu digwyddiadau allweddol;
- Yn dibynnu ar ganlyniad adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar dribiwnlysoedd Cymru a'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol, gweithredu unrhyw newidiadau fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwrfa.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 20120-2021

## Gwariant ar gyfer 2020-2021

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau (achosion a hyfforddiant) | £43,126 |
| Digwyddiadau Tribiwnlys (costau gwrandawiad a chostau eraill) | £15,682 |
| **Cyfanswm** | **£58,808** |

Wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf